

Cyngor Cymuned Llandwrog – Adroddiad Blynyddol 2024-25



Cynnwys

- 1) Gair gan y Cadeirydd
- 2) Gwaith yn ein Pentrefi a Cefnogi'r Gymuned
- 3) Rhoddion Ariannol i Fudiadau Gwirfoddol
- 4) Rheoli Eiddo'r Cyngor
- 5) Bioamrywiaeth a Tiroedd Comin
- 6) Gweinyddiaeth a Llywodraethu
- 7) Pwyllgorau'r Cyngor
- 8) Cynrychioli'r Gymuned
- 9) Ymgysylltu Gyda'r Gymuned
- 10) Ceisiadau Cynllunio
- 11) Ystadegau
- 12) Sefyllfa Ariannol
- 13) Rhaglen Waith 2025/26
- 14) Lwfansau Aelodau
- 15) Cynllun Hyfforddiant Aelodau a Staff
- 16) Pwy di Pwy - Eich Cynrychiolwyr a Staff y Cyngor

Gair gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Sion Hywyn Griffiths

Mae'r flwyddyn yma wedi bod yn gyfnod o heriau a chyfleoedd i Gyngor Cymuned Llandwrog, ac mae wedi bod yn anrhydedd imi wasanaethu fel cadeirydd drwy'r cyfnod hwn. Er bod ein cymuned yn un unigryw yn ei chyfansoddiad, mae cydweithio o fewn, a rhwng y pentrefi'n parhau i gryfhau. Fel cyngor, rydym wedi parhau i gynnal tir ac asedau, gwella gwasanaethau a chefnogi mentrau a grwpiau lleol sy'n cyfoethogi'r ardal.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i fabwysiadu dulliau cyfathrebu mwy modern er mwyn gwella hygyrchedd, ac wedi cyflwyno'r opsiwn i drigolion ymuno â chyfarfodydd llawn y cyngor o bell. Yn ogystal, rydym wedi treialu fforwm ar gyfer hybu bioamrywiaeth, gan wahodd barn y gymuned a dyrannu cyllid i wireddu syniadau newydd. Edrychwn ymlaen at weld y cynlluniau yma yn dwyn ffrwyth.

Rydym wedi gallu cyfrannu at sawl menter leol sydd â phwysigrwydd hanesyddol ac sy'n cyfrannu at les cymdeithasol yr ardal. Mae'n bleser gweld dau fenter gymunedol lwyddiannus yn Ty'n Llan a Chanolfan y Fron yn tyfu o nerth i nerth, dim ond dau o nifer o fentrau eraill – sydd ond yn bosib diolch i waith caled ac ymroddiad gwirfoddolwyr yn y gymuned. Mae eu cyfraniad yn amhrisiadwy ac yn dyst i'r ysbryd cymunedol sy'n parhau i ffynnu yn ein hardal.

Hoffwn ddiolch i'n Clerc a'n Swyddog Ariannol, David Roberts, am ei ymroddiad ac ei ddiwydrwydd i sicrhau bod y cyngor yn gweithredu'n llyfn. Diolch hefyd i'r holl aelodau sy'n gweithio'n ddiflino i gefnogi'r gymuned, i'n Cyngorwyr Sir am eu hymrwymiad, i Ann Llwyd am ei gwaith clodwiw yn cyfieithu ar y pryd yn ein cyfarfodydd, ac i bawb arall sydd wedi cyfrannu at waith y Cyngor.

Wrth edrych ymlaen, mae gennym gynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf, gyda phwyslais ar gydweithio pellach â sefydliadau lleol, cefnogi a chynrychioli trigolion, ac adeiladu ar ein llwyddiannau presennol. Os oes gennych ddiddordeb mewn cyfrannu at waith y Cyngor, byddem wrth ein bodd yn eich croesawu. Fel aelod cymharol ifanc, mae bod yn rhan o'r Cyngor wedi bod yn un o bleserau fy mywyd, gan ddysgu o arweiniad aelodau mwy profiadol. Rwy'n dymuno pob llwyddiant i'r Cadeirydd newydd wrth lywio'r Cyngor trwy flwyddyn arall.



Gwaith yn Ein Pentrefi a Cefnogi'r Gymuned



Mis	Materion a Drafodwyd Carmel
Ebrill	Arwyddion Dim Parcio yn Clwt Foty
Ebrill	Hysbysfwrdd Newydd I'r Neuadd
Mai	Llwybrau Glynmeibion, Hafoty Wen, Ty'n Gadlas
Mehfin	Baw Ci
Gorffennaf	Cyflwr gwair o flaen Maes Hyfryd
Gorffennaf	Cerbydau Trwm o Chwarel Fron
Medi	Llwybr HafotyWen – Arolwg gan Swyddogion Llwybrau
Rhagfyr	Cynllun Arbed 2 Insiwleiddio Tai
Ionawr	Wal Peryglus o flaen y neuadd
Ionawr	Polisi Gosod tai - ADRA
Chwefror	Baw Ci
Chwefror	Gordyfiant ar y lon lawr am Groeslon
Chwefror	Cyflwr wal yn Llidiart Mynydd ar Palmant
Mawrth	Cae Pel droed Carmel - cau'r mynediad i'r hen ysgol

Mis	Materion a Drafodwyd Fron
Ebrill	Sefydlu Gweirglodd yn y cae Pel-droed
Gorffennaf	Cerbydau Trwm o'r Chwarel
Gorffennaf	Gridiau Gwartheg
Medi	Cydgodfan Bws o flaen y Ganolfan
Tachwedd	Cynllun Cadw'n Gynnes y Ganolfan
Tachwedd	Gwartheg ar y Comin
Tachwedd	Dadorchuddio Cofeb
Rhagfyr	Gwasanaeth Post
Rhagfyr	Cynllun Arbed 2 Insiwleiddio Tai
Ionawr	Sbwriel ar y Cmin
Ionawr	Gwasanaeth Gritio
Chwefror	Giat Cae Chwarae
Mawrth	Cardiau Trydan Canolfan Y Fron



Gwaith yn Ein Pentrefi a Cefnogi'r Gymuned

Mis	Rhai o'r Materion a Drafordwyd – Llandwrog
Ebrill	Gwaharddiadau Parcio Bethesda Bach
Medi	Cynllun Gwaith Mynwent Llandwrog.
Medi	Gwesty Stables – Datblygiad Unedau Preswyl
Medi	Llwybr Llandwrog i Dinas Dinlle
Medi	Cynllun Datblygu Lleol – Ychwanegu darn o dir i ehangu'r fynwent
Hydref	Gwaharddiadau Parcio Bethesda Bach
Hydref	Gwaith ar Llwybrau'r Fynwent
Tachwedd	Toiled y Marine – Cadarnhau cefnogaeth y Cyngor l'w gadw yn agored
Chwefror	Wal Terfyn yr Ysgol a'r Fynwent



Mis	Rhai o'r Materion a Drafordwyd Y Groeslon
Mai	Lon Eifion – Gwaith torri coed
Mehefin	Cynllun Cadw'n Gynnes – Neuadd Groeslon
Gorffennaf	Arolwg Cerrig Beddi Bryn'rodyn
Medi	Ffoes BrynRhos/Cae Sarn
Medi	Cae Pel droed Groeslon
Medi	Tai Fforddiadwy yn y Pentref – Arolwg Cynefin
Medi	Llwybrau Llwyngwalch a Gilwern
Hydref	Anghenion Tai – Ymwelaid gan Swyddogion Cynefin ac ADRA
Tachwedd	Wal y Briffordd Fynwent Bryn'rodyn
Rhagfyr	Lon Eifion– Rhaglen Waith
Ionawr	Anghenion Tai – Canlyniad yr Arolwgdiad trafod yr Adroddiad
Chwefror	Cynllun Lliniaru Llifogydd
Mawrth	Gosod Planters



Gwaith yn Ein Pentrefi a Cefnogi'r Gymuned

Mis	Rhai o'r Materion a Drafodwyd – Dinas Dinlle
Ebrill	Talu am Barcio – Sefydlu Gweithgor i gyd weithio gyda Cyngor Gwynedd i lunio cynigion ar gyfer bwriad CG i godi ffi am barcio
Ebrill	Strategaeth Llifogydd Dinas Dinlle a'r Morfa - cais am ddiweddariad i Cyfoeth Naturiol Cymru
Mai	Cysgodfan Bws Newydd Dinas Dinlle
Tachwedd	Toiled y Marine – parhau i gyfrannu yn ariannol i gadw'r toiled ar agor
Rhagfyr	Tal am Barcio – ymwelaid Llyr Jones, Uwch Swyddog Cyngor Gwynedd i drafod y mater
Mawrth	Bryn Mor – addasrwydd yr adeilad I fod yn loches hunan gynahliol



Rhoddion i Fudiadau Gwirfoddol

pwerau dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – yr hawl i wario at ddibenion nad oes gan y Cyngor ddim pwerau penodol eraill ar eu cyfer os yw'r Cyngor o'r farn bod y gwarant er budd yr ardal neu unrhyw ran ohoni



Talwyd cyfanswm o **£8,135** i 23 o fudiadau yn amrywio o £50 i £1,300 (£9,350 i 26 mudiad yn 23/24)



Rhoddwyd cyfraniad o £500 i Neuadd Groeslon ar gyfer Clwb Paned a Sgwrs dros gyfnod yr Argyfwng Costau Byw.



Rhoddion i Fudiadau Gwirfoddol yn 2024/25

Cyngor Cymuned Llandwrog

Ffurflen Gais am Gymorth Ariannol i Fudiadau Gwirfoddol 2024-25

Manylion Cyswllt	
Enw'r Mudiad	
Cyfeiriad (y sawl sydd yn gwneud y cais)	
Swyddogaeth (gyda'r Mudiad)	
Cyfeiriad e-bost	
Rhif ffôn	

Eich Mudiad	
Beth yn fras yw pwrpas y mudiad?	

Mudiad	Swm	Mudiad	Swm
Cwmni Drama Plant Anfradlon	£50	Ambiwylans Awyr Cymru	£100
Neuadd Bentref Y Groeslon	£1,300	Cwmni Drama Brynrhos	£50
Neuadd Pentref Carmel	£1,300	Cylch Meithrin Carmel	£400
Pwyllgor Pentref Carmel	£330	Seindorf Arian Frenhinol Dyffryn Nantlle	£110
Menter Ty'n Llan Cyf	£500	Cymdeithas Lenyddol Brynrhos	£150
Lleu Dyffryn Nantlle	£275	Ysgol Bro Llifon	£200
Canolfan Y Fron	£1,300	Clwb Gwawr Llandwrog	£100
Cof y Cwmwd	£50	Cylch Meithrin Y Groeslon	£400
Merched Y Wawr Groeslon	£150	Ffrindiau Ysgol Llandwrog	£200
Dawns i Bawb	£50	Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda	£200
Eisteddfod Y Groeslon	£220	Cynllun Paned a Sgwrs – Neuadd Groeslon	£500
Sioe Y Groeslon (Carmel, Fron a Llandwrog)	£200		



Rheoli Eiddo'r Cyngor



- ▶ **Mynwentydd** - Mae'r Cyngor , fel Awdurdod Claddu, yn rheoli tair mynwent yn Llandwrog, Carmel a Bryn'rodyn , Y Groeslon ac yn cynnal mynwent Hen Eglwys Sant Tomos, Y Groeslon. Cyflawnwyd rhaglen waith cynnal a chadw cynhwysfawr yn y mynwentydd yn ystod y flwyddyn ynghyd a rhaglen toriadau gwair i gadw'r mynwentydd yn daclus.
- ▶ Gwnaed gwaith adnewyddu ar llwybrau mynwent Llandwrog – *(gyda diolch arbennig I Nick Smith o Gwmni CCSQ am roi 40 tunell o lechi am ddim.)*
- ▶ Adolygwyd Rheolau Mynwentydd y Cyngor ynghyd a'r ffioedd yn y cyfnod
- ▶ Cynhaliwyd arolygiad cyflawn o cerrig beddi fynwent Bryn'rodyn gan gysylltu hefo perchnogion rhai o'r cerrig oedd wedi ei ddarganfod yn beryglus
- ▶ Cynhaliwyd 15 o gladdedigaeth ym mynwentydd y Cyngor yn y cyfnod dan sylw.
- ▶ **Diffriibilwyr** - Mae'r Cyngor yn cynnal pump diffibriliwr (Dinas Dinlle, Groeslon x 4).
- ▶ **Hysbysfyrddau** - Prynwyd hysbysfwrdd newydd i Pentref Carmel a'l gosodwyd tu allan i'r neuadd.
- ▶ **Caeau Pêl-droed** - Cafwyd barn gyfreithiol i gau'r adwy rhwng Hen Ysgol Carmel a'r cae pêl-droed. Yn Y Fron roedd y Cyngor wedi llwyddo i dderbyn grant o £3310 i hybu bioamrywiaeth trwy creu dolydd o flodau gwyllt a sefydlu perllan bychan ar ymylon y cae.
- ▶ **Cysgodfanau Bws**- Mae'r Cyngor yn gyfrifol am 12 cysgodfan bws (Fron x1, Carmel x3, Groeslon x 3, Bethesda Bach x1, Llandwrog x 3 a Dinas Dinlle x1). Mae'r Cyngor yn trefnu rhaglen i'w glanhau.

Bioamrywiaeth a Tiroedd Comin

- ▶ Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6** – ”Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau” – yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgorffori'r angen i ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu syniadau a'u cynlluniau busnes cychwynnol, gan gynnwys unrhyw bolisiau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau beunyddiol.
- ▶ I ddiwallu i gofynion y Ddeddf am y cyfnod 2024/25 mae'r Cyngor wedi creu dolydd gwair, plannu planhigion a coetir lleol brodorol ar corneli cae **Pel-droed Y Fron**.
- ▶ Mae'r Cyngor wedi sefydlu **Fforwm Werdd Cymuned Llandwrog** i hybu cyflwyno'r syniad o bwysigrwydd bioamrywiaeth a gweithredoedd berthnasol a'r oblygiadau. Bu i'r Gweithgor gynnal cyfarfodydd cyhoeddus ym mhob pentref yn ystod y flwyddyn i gasglu mewnbwn ac annog cefnogaeth ymarferol. Bwriedir gwireddu rhai o syniadau ac awgrymiadau a gafwyd o'r cyfarfodydd Pentref.
- ▶ Mae'r Cyngor wedi darparu cyllideb parhaol ar gyfer Hybu Bioamrywiaeth. Mae'r cyllid ar gael i grwpiau gwirfoddol wireddu rhai o'r syniadau.
- ▶ Yn ychwanegol bydd y Cyngor yn parhau i ymgysylltu gyda'r gymuned trwy gynnal cyfarfodydd o'r Fforwm eto ym mhob Pentref a chynnig grantiau i grwpiau.




Bioamrywiaeth a Tiroedd Comin

- ▶ Y gwaith a bwriedir ei ymgymeryd yn 2025/26 yw-
- ▶ Bwriedir parhau cefnogi grwpiau gwirfoddol i gynnal y gweithgareddau a chyflawni'r prosiectau amlinellwyd yn nghyfarfodydd y fforwm werdd. Yn benodol:
- ▶ Adeiladu blychau tylluanod yn Llandwrog, drwy gydweithio gyda swyddog gweithgareddau y Ty'n Llan. Bydd y grwp gwirfoddolwyr yn trefnu digwyddiad i adeiladu'r blychau, ariennir gan y glustnodiad ar gyfer hybu bioamrywiaeth, a chyd weithio gyda'r ysgol.
- ▶ Sefydlu 3 planter o flodau a phlanhigion yn y Groeslon, a chychwyn hel hadau i sefydlu'r banc o hadau gwyllt yn un o'r neuaddau, ar gyfer y gymuned gyfan. Bydd criw o wirfoddolwyr yn cynnal a chadw'r planters, ac yn cydweithio gyda'r ysgol i'w llenwi.
- ▶ Yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn, yn ystod tymor balsam bydd hyfforddiant mapio a sut i'w trin ar gael ar gyfer y gymuned gyfan. Bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth am rywogaethau ymledol, a pham mae'n bwysig i'w rheoli.
- ▶ Mae'r cyngor hefyd am gefnogi'r grwpiau codi ysbwriel a thacluso gwirfoddol sy'n gwneud gwaith da ar draws y gymuned, ac annog mwy o bobl i gymeryd rhan.
- ▶ **Tiroedd Comin Pentrefi** - Mae'r Cyngor yn prynu gwasanaeth contractwr torri gwair i gynnal nifer o diroedd comin yn ein pentrefi yn cynnwys Clwt Foty, Carmel, tir comin gyferbyn a hen Siop Doris, ynghyd a tiroedd yn Y Groeslon, Fron a Llandwrog.



Gweinyddiaeth a Llywodraethu



- ▶ Cyflogwyd un **aelod o staff sef Clerc y Cyngor**, sydd gyda dwy swydd wahanol sef Swyddog Gweinyddol a Rheolwr Cyllid Cyfrifol y Cyngor. Cytundeb rhan amser sydd gan y Clerc sef 63.5 awr y mis.
- ▶ Talwyd **lwfansau statudol** o £156 a £52 y flwyddyn i pob Cyngorydd yn 2024/25. Gwrthodwyd y taliad presenoldeb gan un aelod.
- ▶ Cymeradwywyd Rheolau Sefydlog Newydd (*i gydymffurfio a gofynion newydd sydd ar y Cyngor ers Deddf Llywodraeth Leol 2021ddod i rym*)
- ▶ Cymeradwywyd Model Contract Cyflogaeth Newydd
- ▶ Cymeradwywyd Rheolau Ariannol newydd
- ▶ Cynhaliwyd cyfarfodydd byw am y tro cyntaf erioed. Mae pob cyafrod o'r Cyngor llawn nawr yn cael ei ddangos yn fyw
- ▶ Talwyd cyfanswm o £1,900 fel **lwfansau presenoldeb Cyngorwyr** yn 2024/25. Nid yw'r taliadau yn statudol ond ar ddisgresiwn y Cyngor ar sail lwfans o £10 am fynychu pob cyfarfod.
- ▶ Penodwyd Cyngor Gwynedd fel **Archwilwyr Mewnol** y Cyngor yn 2024/25. Ni chodwyd unrhyw fater ynglŷn cyfrifon ariannol y Cyngor gan yr Archwilwyr Mewnol.
- ▶ Roedd y Cyngor yn cael archwiliad cyflawn gan Swyddfa Archwilio Cymru am ei holl drefniadau ariannol a llywodraethu yn ystod 2024. Ni chodwyd unrhyw fater.
- ▶ Mae'r Cyngor yn darparu **gwasanaeth cyfieithu** i bob cyfarfod.
- ▶ Prynwyd gwasaneth Aqua Marketing, Llandwrog i reoli cynnwys tudalen **Facebook** y Cyngor, gyda **Chwmni Delwedd** yn rheoli'r **Gwefan** a Whitton Computers yn rheoli **gwasanaeth TGCh** y Cyngor.
- ▶ Bu'r Cyngor fynd trwy broses tendro cytundebau torri gwair mynwentydd a llwybrau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn.

Pwyllgorau'r Cyngor

Pwyllgor Gweithredu

Cadeirydd yn 2024/25 Cyng. Gwyn Owen Jones Bu i'r Pwyllgor gyfarfod 9 gwaith yn ystod 2024/25.

Trefnwyd dau gyfarfod pellach gyda cynrychiolaeth o'r Pwyllgor gyda'r Clerc, yn eu rôl o rheolwr llinell i'r Clerc,

Yn dilyn adolygiad o'r Rheolau Sefydlog y flwyddyn diwethaf prif waith y Pwyllgor eleni oedd gweithio ar allanolion dogfen Prawf lechyd gan Un Llais, sef dogfen sy'n edrych ar, ac adolygu trefniadau gweithredol y Cyngor

Allan o'r gwaith yma cafodd 5 polisi hanfodol eu adnabod oedd angen eu hadolygu – rhai yn ddiweddariad o rai cyfredol, ac eraill yn rai newydd.

Hefyd daeth 3 polisi arall i'r amlwg oedd yn rai dymunol i'w cael yn marn y Pwyllgor

Bydd yr 8 polisi newydd yn cael eu mabwysiadu yn y Cyfarfod Blynnyddol mis Mai 2025

Pwyllgor Cyllid

Cadeirydd yn 2024/25 Cyng. Hywel J Owen Bu i'r Pwyllgor gyfarfod 7 gwaith yn ystod 2024/25.

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrifol am oruchwylio a monitro trefniadau ariannol y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn, mae'r pwyllgor wedi canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Monitro'r gwariant ac incwm drwy gydol y flwyddyn, gan sicrhau eu bod yn unol â'r gyllideb a gymeradwywyd.
- Sefydlu a chynnal cyllideb gytbwys er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol.
- Sicrhau llywodraethiant effeithiol a thryloyw o ran pob trefniant ariannol.
- Gweinyddu'r broses o ddosbarthu rhoddion ariannol i fudiadau gwirfoddol, gan gydymffurfio â'r meini prawf a bennwyd.
- Adolygu Rheolau Ariannol y Cyngor i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn addas i'r diben.

Mae gwaith y pwyllgor yn parhau i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn fframwaith ariannol cadarn, gan ddarparu gwerth am arian i'r gymuned.

Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau

Cadeirydd yn 2024/25 Cyng. Clive Bayley

Bu i'r Pwyllgor gyfarfod 6 gwaith yn ystod 2024/25.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio a rheoli materion sy'n ymwneud â mynwentydd y Cyngor a gwaith cynnal a chadw tir ac asedau lleol.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Monitro a chynnal safonau cynnal a chadw ym mynwentydd y Cyngor.
- Goruchwylio trefniadau claddu a sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol.
- Adolygu a chymeradwyo unrhyw welliannau neu fuddsoddiadau o ran seilwaith y mynwentydd.
- Sicrhau bod tir cyhoeddus, parciau a mannau gwyrdd yn cael eu cynnal yn ddiogel, yn lân ac yn hygyrch i'r gymuned.

Ymysg y gwaith pendol yn ystod y cyfnod oedd

- Cynnal Profion Diogelwch Cofebfeini Bryn'rodyn
- Tendro Cytundeb Cynnal Tiroedd y Cyngor am y cyfnod 2025-2028
- Adnewyddu llwybrau fynwent Llandwrog
- Mabwysiadu cynllun calddu yn fynwent Newydd Brynrodyn
- Trefnu gwaith cynnal ar eiddo'r Cyngor – pwyntio wal y briffordd yn fynwent Bryn'rodyn , peintio ffens Bryn'rodyn, adnabod gwaith ar lloches bws Fron


Cynrychioli Eich Cymuned

*Mae aelodau'r Cyngor
a'r Clerc yn cynrychioli
y gymuned ar nifer o
sefydliadau gwirfoddol
yn y gymuned a tu
hwnt. Rhestir i'r dde
rhai o'r grwpiau hynny*

- ▶ Grŵp Cyswllt Chwareli Moel Tryfan ac Alexandra
- ▶ Pwyllgor Ardal Arfon / Dwyfor Un Llais Cymru
- ▶ Ardal Ni
- ▶ Aelodau'r Cyngor yn aelodau gweithgar o Ganolfan y Fron, Neuadd Carmel, Neuadd Groeslon, Tyn Llan Cyf, Genod Llan, Pwyllgor Apêl Eisteddfod, Cymdeithas y Porwyr, Cynghrai Snwcer Bangor a'r Cylch,
- ▶ Yn cydweithio gyda Chyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru ar Brosiect Gwerthuso Perygl Llifogydd o Ddinas Dinlle i Fae'r Foryd:
- ▶ Cynllun Gwella Traeth Dinas Dinlle
- ▶ Fforwm Neuadd a Chanolfannau Dyffryn Nantlle
- ▶ Corff Llywodraethu Ysgolion Llandwrog a Bro Llifon



Ymgysylltu Gyda'r Gymuned



Gwefan – www.cyngorcymunedllandwrog.cymru. Nifer ymwelwyr i'r wefan yn y 12 mis at 31 Mawrth 2025 yn 71,709.

- ▶ **Rhaglen a Cofnodion** pob cyfarfod o'r Cyngor yn ymddangos ar y wefan o fewn 7 diwnod o ddyddiad y cyfarfod
- ▶ **Papur Bro** – adroddiad o gofnodion misol y Cyngor yn ymddangos yn Papur Bro Lleu
- ▶ **Cyfryngau Cymdeithasol** – rheoli'r tudalen Facebook y Cyngor gan AquaMarketing. Mae'r Cyngor yn gweithio at gynyddu'r niferoedd sydd yn dilyn y dudalen ac yn croesawu unrhyw sylwadau
- ▶ **Hysbysfyrddau'r Pentrefi** – rhoddir wybodaeth ar yr hysbysfyrddau yn achlysurol
- ▶ **Cyfranogiad y Cyhoedd** – rhoddir cyfle rhesymol i aelodau'r cyhoedd drafod unrhyw fater ar gychwyn pob cyfarfod. Darperir gwasanaeth cyfiethu ym mhob cyfarfod
- ▶ **Cyfarfodydd Byw** – mae pob cyfarfod o'r Cyngor llawn yn cael ei ddarlledu yn fyw trwy Zoom
- ▶ Cynhaliwyd **cyfarfodydd cyhoeddus** ym mhob Pentref yn 2024 i'r Fforwm Werdd i gasglu syniadau i hybu bioamrywiaeth



Ceisiadau Cynllunio

Mae Cyngor Cymuned Llandwrog yn ymgynghoreion statudol yn y broses gynllunio a rhaid i Cyngor Gwynedd ein hysbysu o'r holl geisiadau cynllunio, ac unrhyw ddiwygiadau i'r ceisiadau hynny, o fewn y plwyf.

Dim ond yn yr un ffordd ag unrhyw un arall y gall y Cyngor wneud sylwadau ar ceisiadau Cynllunio. Fodd bynnag, mae'n rhaid i unrhyw sylwadau gan y Cyngor Cymuned eu cytuno yn ystod amser priodol a elwir yn ystod y cyfarfod o'r Cyngor sydd yn gyhoeddus.

Gall aelodau o'r cyhoedd sy'n mynychu'r cyfarfod wneud sylwadau, siarad o blaid neu wrthwynebu unrhyw gais yn ystod y rhan 'Fforwm Agored' o'r cyfarfod, ond nid yn ystod y trafodaethau'r Cyngor yn ddiweddarach. Cyflwynir sylwadau y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod y cyngor yn ysgrifenedig gan Glerc y Cyngor i'r Awdurdod Cynllunio perthnasol.

Cyn y cyfarfod bydd aelodau'r PC yn astudio'r cynlluniau, y ffurflenni a'r manylion a gyflwynwyd gyda'r cais yn ofalus ac yn gallu gofyn am farn y cyrff statudol, Asiantaeth yr Amgylchedd, Awdurdod Priffyrdd, ac ati.

Cofier mai dim ond un ymgynghorai yw'r Cyngor Cymuned a'i fod yn cyfrif fel un farn.


- ▶ Nifer ceisiadau cynllunio yn ein Cymuned a fu gerbron y Cyngor am sylwadau yn y cyfnod

▶ **46** (37 yn 2023/24)



Ystadegau 2024-25

- ▶ Nifer cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn **11** (11 yn 2023/24)
- ▶ Nifer Cyfarfodydd Pwyllgorau/Paneli/Gweithgorau **22** (24)
- ▶ Nifer Cyrsiau a fynychwyd gan aelodau a staff **14** (8)
- ▶ Nifer y cwynion a dderbyniwyd **0** (1)
- ▶ Aelodau Newydd yn y cyfnod **0** (1)
- ▶ Ymddiswyddiadau yn y cyfnod **0** (2)
- ▶ Nifer claddedigaethau yn ein mynwetydd **15** (11)
- ▶ Nifer ymweliadau i wefan y Cyngor **71,709** (69,785)



Sefyllfa Ariannol y Cyngor 2024/25 – Crynodeb

	2024/25	2023/24
Gwariant	£93,245.00	£80,192.00
Llai - Incwm o'r Praesept	-£78,600.00	-£74,620.00
Llai - Incwm trwy Ffioedd	-£6,393.00	-£5,411.00
Gwariant dros Incwm	£8,252	-£161
Balansau ar 1/4/24	£25,830.00	£25,669.00
Balansau ar 31/3/25	£17,577.00	£25,830.00
Dyled y Cyngor 31/3/25	£90,201.00	£97,985.00
(Tri benthyciad tymor hir 1) Prynu tir ym Mryn'rodyn yn 1996 am £15,500; 2) Gwaith ar Llwybrau mynwentydd yn 2006 £65,000 a 3)		



Gwariant ac Incwm 2024/25

Pennawd	Y Gyllideb Agoriadol	Symudiadau Net o Cronfeydd	Y Gyllideb Terfynol	Gwariant ac Incwm Terfynol	Gor neu (Tan) Wariant
Gweinyddiaeth	£31,410	£1,625	£33,035	£31,806	(£1,229)
Rhoddion	£8,420		£8,420	£8,135	(£285)
Cynnal Tiroedd ac Eiddo	£27,280	£12,821	£40,101	£37,746	(£2,355)
Benthyciadau	£11,420		£11,420	£11,428	+£8
Partneriaethu	£4,000		£4,000	£4,000	(£200)
Diffribilwyr	£760		£760	£130	(£630)
Datblygiadau/Eraill	£1,000	(£2,826)	(£1,826)	£0	(£1,826)
Cyfanswm Gwariant	£84,290	£11,620	£95,909	£93,245	(£2,664)
Incwm Ffioedd Claddu	(£3,950)		(£3,950)	(£4,620)	(£670)
Incwm Eraill	(£940)		(£940)	(£933)	+£8
Llogau Banc	(£800)		(£800)	(£840)	(£40)
Cyfanswm Incwm	(£5,690)		(£5,690)	(£6,393)	(£701)
Gwariant Net	£78,600	£11,620	£90,220	£86,853	(£3,367)

Rhaglen Waith 2025/26



- ▶ Cefnogi Fforwm Werdd i adnabod lleoliadau i hybu a chynnal bioamrywiaeth yn unol â Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016(mae'n ddyletswydd ar bob Cyngor Tref a Chymuned i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau).
- ▶ Cynnal archwiliad o gerrig beddi mynwent Carmel. Cynnal y mynwentydd a creu Rhaglen waith i'w cadw mewn cyflwr boddhaol.
- ▶ Gwaith brys ar wal Cae Chwarae Y Fron, peintio cysgodfan bws y Fron
- ▶ Symud tuag at cynnal cyfarfodydd hybrid a darlledu cyfarfodydd ar y cyfryngau cymdeithasol yn fyw
- ▶ Parhau i wella delwedd pentrefi trwy gydweithio gyda Chynghorwyr Sir a Thîm Tacluso Ardal Ni
- ▶ Parhau i gynnal asesiad o risgiau'r Cyngor gan ddefnyddio “Prawf Iechyd ” Un Llais Cymru.
- ▶ Adolygu, diweddarau a mabwysiadu Polisiau newydd.
- ▶ Trafod a chyd weithio gyda Chyngor Gwynedd ar bwriad Cyngor Gwynedd i godi ffi am barcio ar traeth Dinas Dinlle
- ▶ Cyd weithio gyda ein cymunedau i adnabod safleoedd addas ar gyfer gosod diffibriliwyr
- ▶ Cefnogi'r gymuned dros gyfnod Argyfwng Costau Byw
- ▶ Cyd weithio a chymryd rhan flaenllaw gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu strategaeth llifogydd Dinas Dinlle
- ▶ Dosbarthu rhoddion ariannol i fudiadau gwirfoddol oddi fewn a thu hwnt i'r gymuned.
- ▶ Cefnogi trigolion Y Fron i ail-leoli'r cysgodfa bws i wella mynediad i pobol sydd gyda anableddau.
- ▶ Creu Rhaglen Waith i adnabod anhenion cyn ystyried dull ariannu

Lwfansau Aelodau

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 sydd yn nodi, yn flynyddol, taliadau gorfodol a dewisol i Gynghorau Cymuned.

Mae'r Panel Annibynnol Lwfansau Aelodau wedi ei wneud hi'n orfodol talu cyfraniad at gostau a threuliau aelodau Cynghorau Cymuned yng Ngrwpiau 1 i 5. Nid oes angen derbynebaw ar gyfer y taliadau hyn ac mae'r taliadau wedi derbyn eithriad arbennig gan HMRC.

Mae Cyngor Cymuned Llandwrog mewn Grŵp 4 (Etholaeth 1,000 i 4,999) sydd yn golygu y taliadau canlynol i'w aelodau -

*Taliad costau o £156 y flwyddyn - **gorfodol** ar gyfer pob aelod*

*Ad-daliad nwyddau traul o £52 y flwyddyn - **gorfodol** ar gyfer pob aelod*

*Lwfans presenoldeb: **Dewisol** hyd at uchafswm o £30 am pob cyfarfod. Mae Cyngor Llandwrog wedi penderfynu talu **£10 i pob aelod**.*

Gall aelodau wrthod derbyn y taliadau ond rhaid i hynny fod yn ysgrifenedig i'r Clerc

Nid yw'r Cyngor yn talu lwfansau (hyd at £500) i aelodau sydd yn cyflawni dyletswyddau Uwch fel Cadeiryddon neu Is-gadeiryddon y Cyngor Llawn neu Pwyllgorau / Gweithgorau

Lwfansau Aelodau 2024/25

Enw'r Cynghorydd	Lwfans Mandadol am gostau ychwanegol gweithio gartref (£156 i pob aelod)	Lwfans Mandadol penodol am nwyddau traul (£52 i pob aelod)	Lwfans Presenoldeb (£10 am pob cyfarfod mynychwyd)	Cyfanswm / Total
Cyng. Gwyn Owen Jones	£156.00	£52.00	£230.00	£438.00
Cyng. Eddie Willcox	£156.00	£52.00	£150.00	£358.00
Cyng. Alan Patterson <i>Nodyn 1</i>	£156.00	£52.00	£0	£208.00
Cyng. Bryn Williams <i>Nodyn 2</i>	0	0	£0	0
Cyng. Kim Lamerick	£156.00	£52.00	£170.00	£378.00
Cyng. Hywel J Owen	£156.00	£52.00	£210.00	£418.00
Cyng. Alun Wyn Jones	£156.00	£52.00	£280.00	£488.00
Cyng. David C Davies	£156.00	£52.00	£210.00	£358.00
Cyng. Bethan Mair Williams	£156.00	£52.00	£100.00	£308.00
Cyng. Sion Hywyn Griffiths	£156.00	£52.00	£170.00	£378.00
sedd gwag (ard Groeslon)	-	-	-	-
Cyng. Clive Bayley	£156.00	£52.00	£140.00	£348.00
Cyng. Dyfed Williams	£156.00	£52.00	£40.00	£248.00
Cyng. Marnel Pritchard	£156.00	£52.00	£200.00	£408.00
Cyfanswm	£1,872.00	£624.00	£1,900.00	£4,396.00

Nodyn 1 – Cyng. Alan Patterson – ni wnaeth hawlio – y lwfans presenoldeb (cyfwerth a £170)

Nodyn 2 – Cyng. Bryn Williams – ni wnaeth hawlio lwfansau– ‘roedd cyfanswm o £218.00 yn ddyledus iddo.

Yn unol ag Adran 151 Mesur Llywodraeth Leol 2011, rhaid i Gynghorau Cymuned gyhoeddi o fewn ardal ei hawdurdod y gydnabyddiaeth ariannol sydd wedi'i derbyn gan eu haelodau am y flwyddyn ariannol blaenorol. Mae'r wybodaeth yn cael ei hanfon at Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol erbyn 30^{ain} Medi bob blwyddyn.

Cynllun Hyfforddi Aelodau a Staff


► Mae Adran 67 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd statudol ar Gyngorau Tref a Chymuned i lunio a chyhoeddi cynllun sy'n nodi sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi cynghorwyr a staff.

► Pwrpas y cynllun yw sicrhau bod y Cyngor ar y cyd yn meddu ar y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth sydd eu hangen i weithredu'n effeithiol. Nid oes angen i bob cynghorydd a staff fod wedi derbyn yr un hyfforddiant a datblygu'r un arbenigedd.

► Mae gan y Cyngor 13 Aelod (gyda un sedd wag) - yn gymesgedd o aelodau profiadol ym maes Llywodraeth Leol a'r Sector Cyhoeddus, aelodau sydd yn rhedeg busnes, ac aelodau sydd yn arwain prosiectau mudiadau gwirfoddol yn eu pentrefi. Mae gan yr aelodau hefyd arbenigedd mewn sawl maes sydd yn briodol i waith y Cyngor (er engraifft rheoliadau lechyd a Diogelwch a Rheoli Mynwentydd), ac aelodau newydd di-brofiad ym maes Llywodraeth Leol. Bydd asesiad o anghenion hyfforddi cynghorwyr yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol pan fydd cynghorwyr newydd wedi cael mwy o amser i setlo i mewn ac wedi dod yn gwbl gyfarwydd â'u rolau a'u cyfrifoldebau. Bydd asesiad o anghenion hyfforddi yn rhan bwysig o arfarniadau staff ac aelodau. Er gwaethaf hyn, mae meysydd craidd i fynd i'r afael â hwy er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor sgiliau a dealltwriaeth ddigonol. Y rhain yw:

- ● Anwytho sylfaenol i gynghorwyr;
- ● Y Côt Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru;
- ● Rheolaeth ariannol a llywodraethu.

► Yn 2024/25 fe wnaeth wyth aelod a staff y Cyngor fynychu 14cwsr a drefnwyd gan Un Llais Cymru a Cyngor Gwynedd



Eich Cynrychiolwyr – Ward Y Fron

nifer seddau 2

- ▶ **Cynghorydd Gwyn Owen Jones** Bodwyn, Y Fron, LL54 7RB Rhif ffôn 01286 881138 neu 07903 333260. Yn aelod ers Chwefror 1997 gk.emjones@btinternet.com
[Cadeirydd Pwyllgor Gweithredu](#)
- ▶ **Cynghorydd Edward John Willcox** Noddfa, Y Fron LL54 7BB Rhif ffôn 07919 914483 Yn aelod ers Mai 2017 eddiwillcox@btinternet.com

Eich Cynrychiolwyr – Ward Carmel

nifer seddau 3

- ▶ **Cynghorydd Alan Patterson** Bryn Llifon, Carmel, LL54 7RW
Rhif ffôn 01286 881843 neu 07989 906704 **Yn aelod ers**
Hydref 1995 hengop@btinternet.com **Is-gadeirydd**
Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau
- ▶ **Cynghorydd Bryn Williams** Dafarn Dywyrch, Llandwrog
Uchaf, LL54 7RA Rhif ffôn 01286 831378 neu 07583
517852. **Yn aelod ers Ebrill 1997**
brynwilliams@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd. Kim Lamerick** Bryn Awel, Carmel LL54 7RY
Rhif ffôn 07789 746651 **Yn aelod ers Medi 2023**
kim.lamerick0501@btinternet.com

Eich Cynrychiolwyr – Ward Y Groeslon – nifer seddau 6

- ▶ **Cynghorydd Alun Wyn Jones** Hafan, Rhes Grugan, Y Groeslon LL54 7TD Rhif ffôn 01286 830911 **Yn aelod ers Ionawr 1986**
alunwynjones@cyngorcymunedllandwrog.cymru **Is-gadeirydd y Cyngor**
- ▶ **Cynghorydd Hywel John Owen** Sycharth, Cae Sarn, Y Groeslon LL54 7TW Rhif ffôn 01286 830066 neu 07979 985149 **Yn aelod ers Medi 1983.**
hywelsycharth@gmail.com **Cadeirydd Pwyllgor Cyllid**
- ▶ **Cynghorydd David C Davies** Bodarfryn, Dolydd, Y Groeslon LL54 7EF Rhif ffôn 07836 325195 **Yn aelod ers Mehefin 2017** davidcdavies@btinternet.com

Eich Cynrychiolwyr – Ward Y Groeslon

- ▶ **Cynghorydd Bethan Mair Williams**, Arddol, Y Groeslon LL54 7EF
Rhif ffôn 07879 338023 **Yn aelod ers Mai 2023**
bethan.mair@tiscali.co.uk
- ▶ **Cynghorydd Sion Hywyn Griffiths** Arlwyn, 2 Rhes Grugan, Y Groeslon LL54 7TD Rhif ffôn 07720 569795 **Yn aelod ers Mai 2022**
sion-griffiths@hotmail.co.uk **Cadeirydd y Cyngor**

Eich Cynrychiolwyr – Ward

Llandwrog/Dinas Dinlle nifer seddau **3**

- ▶ **Cynghorydd Clive Bayley** Ty Clen, 1 Gernant, Bethesda Bach LL54 5SJ Rhif ffôn 07967 794002 **Yn aelod ers Mehefin 2017** clivebayley@btinternet.com. **Cadeirydd Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau.**
- ▶ **Cynghorydd Dyfed Williams** Bwthyn Henryd. Llandwrog LL54 5TN Rhif ffôn 01286 831290 neu 07772 819189 **Yn aelod ers Mai 2012** dyfed.williams@btinternet.com
- ▶ **Cynghorydd Marnel Pritchard** Llain yr Eglwys, Llandwrog LL54 5TA Rhif ffôn 01286 830993 **Yn aelod ers Chwefror 2020** marnelp@btinternet.com.

Cysylltu gyda eich Cyngor

Clerc y Cyngor (Swyddog Gweinyddol a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor)

▶ **David Roberts, Bryn Meurig, Carmel , Caernarfon
Gwynedd LL54 7DS**

▶ Rhif Ffôn **01286 881920** neu **07796 024288**

▶ E-bost **rheolwr@cyngorcymunedllandwrog.cymru**

▶ Gwefan y Cyngor

www.cyngorcymunedllandwrog.cymru

▶ Oriau Busnes y Cyngor – cytundeb **rhan amser** sydd gan y Clerc ond gellir cysylltu gyda ef naill a i trwy e-bost, dros y ffôn, llythyru neu gartref unrhyw adeg. Cofiwch y gellir cysylltu gyda eich Cyngorwyr Cymuned ac hefyd eich Cyngorydd Sirol



Eich Cynghorwyr Sir

- ▶ Yn cynrychioli Ward Y Groeslon gan **Llio Elenid Owen** yn gwasanaethu trigolion Y Groeslon, Llandwrog a Dinas Dinlle
Ffôn 07887 956253
ebost cynghorydd.llioelenidowen@gwynedd.llyw.cymru



- ▶ Yn cynrychioli Ward Tryfan gan **Arwyn Herald Roberts** yn gwasanaethu trigolion Y Fron a Carmel
Ffôn 07831 448216
ebost cynghorydd.arwynherald@gwynedd.llyw.cymru

